Hawdd i'w Ddeall

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Ein cynllun i sicrhau dyfodol cynaliadwy yng Nghymru

## Rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi'n ei feddwl



Mae'r ddogfen hon wedi cael ei hysgrifennu gan Lywodraeth Cymru. Mae'n fersiwn hawdd ei deall o 'Sicrhau Dyfodol Cynaliadwy: Egwyddorion Amgylcheddol, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth ar gyfer Cymru Wyrddach'.

Ebrill 2024

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon

Mae'r fersiwn hon yn un hawdd ei deall. Mae'r geiriau a'u hystyr yn hawdd i'w darllen a'u deall.

Ond efallai y bydd angen help arnoch chi i ddarllen a deall y ddogfen hon. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.

Efallai y bydd y geiriau mewn **ysgrifen las drom** yn newydd i chi neu'n anodd eu deall. Maen nhw'n cael eu hesbonio mewn bocs o dan y gair.

Os yw gair neu derm anodd yn cael ei ddefnyddio eto, bydd mewn ysgrifen las arferol. Mae ystyr yr holl eiriau mewn glas ar dudalen 23.

Lle mae'r ddogfen yn dweud 'ni', mae hyn yn meddwl Llywodraeth Cymru.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn:

Cyfeiriad:

Yr Is-adran Tir
Natur a Choedwigaeth
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: environmental.governance@gov.wales

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon | 2 |
| Beth yw pwnc y ddogfen hon? | 4 |
| Yr amgylchedd | 5 |
| Pam mae amgylchedd iach yn bwysig? | 7 |
| Y cynllun mewn 3 rhan | 8 |
| Rhan 1: Gwreiddio egwyddorion amgylcheddol yng nghyfraith Cymru | 8 |
| Rhan 2: Sefydlu Corff Llywodraethiant Amgylcheddol i Gymru | 11 |
| Rhan 3: Targedau ar gyfer diogelu ac adfer bioamrywiaeth | 16 |
| Amserlen y cynllun | 23 |
| Rhestr geirfa | 24 |



OGL © Hawlfraint y Goron 2024, Llywodraeth Cymru, WG49562
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg


Daw'r lluniau yn y ddogfen hon o Photosymbols: www.photosymbols.com/

# Beth yw pwnc y ddogfen hon?

Rydyn ni eisiau clywed eich barn ar y cynllun ar gyfer amgylchedd cynaliadwy yng Nghymru.

Mae'r ddogfen hon yn dweud beth rydyn ni eisiau ei wneud.

Mae ail ddogfen yn mynd gyda hon, sydd yn cynnwys y cwestiynau.
Y Ffurflen Ymateb yw enw'r ddogfen honno.




Llenwch y ffurflen ymateb ar ôl darllen y ddogfen hon. Neu atebwch y cwestiynau ar-lein:
[www.llyw.cymru/ymgynghoriadau](http://www.llyw.cymru/ymgynghoriadau)




Hoffem glywed eich barn erbyn **30 Ebrill 2024**.

# Yr amgylchedd



Mae'r **amgylchedd** yn bwysig iawn i'n hiechyd a'n lles.

Ond mae pobl wedi bod yn niweidio'r amgylchedd dros amser gan achosi dirywiad amgylcheddol.




Mae dirywiad amgylcheddol yn cael ei achosi gan bethau fel:



- Sut mae pobl yn defnyddio'r tir a'r môr
- Llygredd
- Colli cynefin



- Newid hinsawdd
- **Rhywogaethau estron goresgynnol**



Rydyn ni wedi cyhoeddi argyfwng hinsawdd a natur yng Nghymru, ac mae angen i ni newid pethau er mwyn gwella'r amgylchedd.

Rydyn ni wedi creu'r cynllun hwn i wneud yr amgylchedd yn fwy iach.

Ein bwriad yw:



1. Gwreiddio egwyddorion amgylcheddol yng nghyfraith Cymru.
2. Cryfhau sut mae Cymru'n cadw at gyfraith amgylcheddol.
3. Creu targedau newydd ar gyfer bioamrywiaeth.





Mae'r gwaith hwn yn bwysig iawn ar gyfer iechyd pawb, ac ar gyfer yr amgylchedd a'r **economi**.




Mae ein cynllun hefyd yn helpu cynlluniau a deddfau eraill sy'n ceisio gwella bywyd yng Nghymru. Mae angen i bawb gydweithio er mwyn i'r cynllun lwyddo.

# Pam mae amgylchedd iach yn bwysig?

Mae **bioamrywiaeth** ac **ecosystemau** iach yn bwysig iawn er mwyn i ni allu goroesi.

Mae ecosystemau yn darparu **gwasanaethau ecosystem**.



Er enghraifft, mae coed yn cynhyrchu ocsigen a phren, sy'n ein helpu ni i anadlu ac i adeiladu tai. Maen nhw hefyd yn hybu hapusrwydd a lles. Mae'r rhain i gyd yn wasanaethau ecosystem.



Mae'r gwasanaethau hyn yn dal i gael eu dinistrio gan ddirywiad amgylcheddol a cholli bioamrywiaeth.

**1 mewn 6 rhywogaeth**


Mae Cymru, fel gweddill y byd, yn wynebu argyfwng bioamrywiaeth, gydag un o bob chwe rhywogaeth yng Nghymru mewn perygl o fynd yn **ddiflanedig**.

Mae colli bioamrywiaeth a niwed i wasanaethau ecosystem yn fygythiad i'n lles ni.

## Y cynllun mewn 3 rhan

## Rhan 1: Gwreiddio egwyddorion amgylcheddol yng nghyfraith Cymru

Mae'r rhan hon yn sôn am gynlluniau Cymru i roi deddfau newydd ar waith i ddiogelu'r amgylchedd.




Pan adawodd y Deyrnas Unedig yr **Undeb Ewropeaidd (UE)** yn 2020, nid oedd deddfau amgylcheddol yr UE yn berthnasol i Gymru mwyach.

Er mwyn gwneud yn siŵr ein bod ni'n diogelu'r amgylchedd rydyn ni eisiau cyflwyno rhai 'egwyddorion amgylcheddol'.




Wrth siarad â phobl fel chi yn 2019, roedd pobl ar y cyfan yn meddwl bod egwyddorion amgylcheddol yr UE yn dda, a bod angen cyflwyno cyfraith newydd i'w hadfer yng Nghymru.

Dyma'r egwyddorion amgylcheddol:



- Mae diogelu'r amgylchedd yn bwysig ac mae angen ei ystyried wrth wneud polisïau a phenderfyniadau **(integreiddio)**.



- Mae angen i bobl feddwl yn ofalus iawn wrth wneud penderfyniadau er mwyn osgoi niweidio'r amgylchedd **(rhagofalus)**.

- Mae angen ceisio osgoi niweidio'r amgylchedd bob amser **(atal)**.

- Os oes rhywbeth yn mynd o'i le a bod difrod amgylcheddol yn digwydd, mae angen ei drin lle digwyddodd **(cywiro yn y ffynhonnell)**.



- Mae angen i bobl sy'n llygru dalu i lanhau eu llanast a'r difrod amgylcheddol sy'n cael ei achosi **(y llygrwr sy'n talu)**.




Rydyn ni eisiau dod â'r egwyddorion hyn yn ôl i Gymru, a'u cefnogi gydag amcan cyffredinol, i sicrhau lefel uchel o ddiogelu'r amgylchedd.




Rydyn ni eisiau i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau i nodi'n fanwl beth mae'r egwyddorion amgylcheddol yn ei olygu.




Rydyn ni eisiau i Weinidogion Cymru orfod ystyried yr egwyddorion amgylcheddol, a'r canllawiau, wrth ddatblygu pob polisi a deddfwriaeth.

Os bydd hyn i gyd yn digwydd, byddwn yn cryfhau diogelu'r amgylchedd yng Nghymru.

# Rhan 2: Sefydlu Corff Llywodraethiant Amgylcheddol i Gymru



Mae'n bwysig fod gan Gymru **gorff llywodraethiant amgylcheddol** cryf er mwyn cael amgylchedd iach a chynaliadwy.




Corff llywodraethiant amgylcheddol yw corff gwarchod annibynnol sy'n gwneud yn siŵr fod **awdurdodau cyhoeddus** penodol yn cadw at y rheolau ac yn diogelu'r amgylchedd.


## Pam mae angen hyn ar Gymru?




Pan adawodd y DU yr UE, diflannodd y corff gwarchod a oedd yn sicrhau bod cyfraith amgylcheddol yn cael ei chadw ac a oedd yn cymryd camau gorfodi yn erbyn rhai awdurdodau cyhoeddus pan oedd rheolau'n cael eu torri.



Rydyn ni eisiau creu corff amgylcheddol newydd a fydd yn gwella ein gallu i hyrwyddo, cadw a gofalu am ein hamgylchedd.




Wrth siarad â phobl fel chi yn 2019, fe wnaethom ni ofyn a oeddech chi'n hoffi'r syniad o gorff llywodraethiant amgylcheddol newydd a sut byddai'n gweithio. Roedd llawer o gefnogaeth i'r syniad.

Ers hynny, mae 'Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru' wedi bod yn gweithio'n galed i wneud yn siŵr fod cyfraith amgylcheddol yng Nghymru ar waith. Fodd bynnag, nid oes gan yr asesydd ddigon o bŵer i orfodi sefydliadau i gadw at y gyfraith.

## Beth fydd y corff gwarchod yn ei wneud?


Dyma rai o'r pethau rydyn ni eisiau i'r corff llywodraethiant newydd ei wneud:




- Monitro a chynghori Gweinidogion Cymru ar ddatblygu cyfraith a pholisi amgylcheddol yng Nghymru.
- Derbyn cwynion gan y cyhoedd os yw awdurdodau cyhoeddus yn methu â dilyn y gyfraith.




- Ymchwilio i sefyllfaoedd lle mae'n bosib fod rhywun (fel asiantaeth y llywodraeth) yn torri'r rheolau amgylcheddol.




- Gorfodi'r ddeddf os yw'r rheolau'n cael eu torri, gyda hynny'n amrywio o gael sgwrs i fynd i'r llys.



- Monitro sut mae cyfreithiau amgylcheddol yn cael eu gweithredu a'u dilyn. Bydd hyn yn cynnwys monitro targedau cyfreithiol i wella'r amgylchedd, ac adrodd ar ba mor dda y mae Gweinidogion Cymru a'r awdurdodau cyhoeddus perthnasol yn ei wneud i gyrraedd y targedau.



- Rhoi cyngor arbenigol i Weinidogion Cymru ac awdurdodau cyhoeddus.

- Cydweithio gyda sefydliadau eraill.




- Ysgrifennu dogfen yn esbonio sut mae'n bwriadu cyflawni ei bwrpas a'i amcanion.

## Pwy fyddan nhw'n eu goruchwylio?



- Swyddogion Llywodraeth Cymru (fel Gweinidogion).
- Awdurdodau cyhoeddus, sy'n cynnwys sefydliadau fel **Cyfoeth Naturiol Cymru** sy'n diogelu'r amgylchedd.



- Rhai cwmnïau preifat sy'n gwneud gwaith pwysig yn ymwneud â'r amgylchedd (fel cwmnïau dŵr).

## Beth na fyddan nhw'n ei wneud?

Ni fydd y corff yn cymryd lle cyrff gwarchod eraill fel Cyfoeth Naturiol Cymru sydd eisoes yn delio â phroblemau amgylcheddol penodol.



Ni fydd y corff yn ymchwilio i bob un cwyn – a'r corff fydd yn penderfynu pryd a pha faterion maen nhw am edrych arnyn nhw yn fwy manwl.

**Cyllid a llywodraethiant:**



- Bydd y corff llywodraethiant yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.
- Bydd y corff yn cael ei ariannu'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru.
- Bydd yn cael ei arwain gan gomisiwn o arbenigwyr wedi eu penodi gan Weinidogion Cymru.


# Rhan 3: Targedau ar gyfer diogelu ac adfer bioamrywiaeth

Mae Cymru'n wynebu argyfwng bioamrywiaeth.



Bydd mynd i'r afael â'r argyfwng natur yn gofyn am gamau brys a chamau hirdymor i gyflawni'r newid sydd ei angen.

Rydyn ni eisiau bod yn **Gymru Natur-Bositif!**




Er mwyn cyflawni hyn, rydyn ni'n cynnig **fframwaith adfer natur strategol** gyda thargedau bioamrywiaeth **statudol**.

O fewn y fframwaith hwn rydyn ni eisiau:



- **Targedau Bioamrywiaeth Statudol –** byddwn yn gosod nod cyffredinol (prif darged) a thargedau ategol i ddiogelu ac adfer ecosystemau a rhywogaethau.



- **Strategaeth glir –** byddwn yn llunio Strategaeth Adfer Natur. Dyma fydd gweledigaeth hirdymor Cymru natur-bositif.



- **Cynllun gweithredu –** bydd Cynllun Gweithredu Adfer Natur yn cynnwys y camau penodol sydd eu hangen i gyflawni'r targedau a gweledigaeth hirdymor y strategaeth. Bydd y cynllun gweithredu hwn yn cael ei ddiweddaru bob 4 blynedd.

- **Cynlluniau lleol –** bydd awdurdodau cyhoeddus yn creu Cynlluniau Adfer Natur Lleol i gyfrannu at y nodau cenedlaethol. Bydd y rhain yn ystyried yr ardaloedd penodol a'r dystiolaeth ar gyfer camau gweithredu lleol sy'n cefnogi'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur cenedlaethol.




- **Monitro ac adrodd effeithiol –** byddwn yn gwirio'n rheolaidd i weld a yw'r nodau'n cael eu cyflawni.

Rydyn ni'n awgrymu mai'r prif darged yw:

**'Gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth drwy wella statws rhywogaethau ac ecosystemau erbyn 2030 a'u hadferiad clir erbyn 2050'**.

Bydd y targedau wedyn yn mynd i'r afael â gwahanol agweddau ar yr argyfwng natur, fel:



- Diogelu cynefinoedd a rhywogaethau sy'n bodoli eisoes.
- Adfer ecosystemau sydd wedi'u difrodi.
- Lleihau bygythiadau i natur, fel newid hinsawdd a llygredd.

Mae Cymru wedi ymrwymo i **Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Amrywiaeth Fiolegol** a nodau'r **Fframwaith Bioamrywiaeth Fyd-eang** Bydd ein targedau newydd yn seiliedig ar y Fframwaith Bioamrywiaeth Fyd-eang.



Bydd arbenigwyr yn defnyddio gwyddoniaeth a data i wneud yn siŵr ei bod hi’n bosib cyflawni’r targedau a’u bod yn gwneud synnwyr i Gymru.

Rydyn ni eisiau i’r targedau fod yn rhai CAMPUS (Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol
a Synhwyrol).




Bydd y targedau hyn yn cael eu nodi fel rhan o’r ddeddf i sicrhau eu bod yn digwydd.

## Monitro Fframwaith Adfer Natur Cymru: Cadw golwg ar gynnydd

Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr fod Fframwaith Adfer Natur Cymru, sydd â’r bwriad o achub bioamrywiaeth yn gweithio yn ymarferol. Dyma sut rydyn ni’n bwriadu monitro cynnydd.

## Data a Dangosyddion:





- Byddwn yn defnyddio data ar bethau fel poblogaethau anifeiliaid ac iechyd cynefinoedd i fonitro cynnydd tuag at y targedau. Bydd y data hwn yn dod o brosiectau gwyddoniaeth dinasyddion, asiantaethau'r llywodraeth neu sefydliadau ymchwil.



- Byddwn yn datblygu dangosyddion – nodau bach sy'n helpu i fesur cynnydd mwy. Er enghraifft, mae monitro nifer y rhywogaethau glöyn byw mewn ardal benodol yn gallu bod yn arwydd o'r amrywiaeth pryfed yno.

## Adrodd:





- Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn adrodd ar y targedau bioamrywiaeth fel rhan o'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol blynyddol. Bydd yr adroddiad hwn yn rhoi darlun clir i bawb o sut mae pethau'n mynd.



- Bydd Gweinidogion Cymru hefyd yn cyhoeddi datganiad gerbron Senedd Cymru bob ychydig o flynyddoedd. Bydd y datganiad hwn yn dweud a yw'r targedau wedi'u cyrraedd ac yn esbonio sut.

- Bydd **awdurdodau lleol** yn monitro ac yn adrodd ar eu gwaith nhw yn eu Cynlluniau Gweithredu Adfer Natur Lleol.

**Craffu Annibynnol:**



- Bydd y pŵer gan y **corff llywodraethiant amgylcheddol** newydd sy'n cael ei gynnig yn Rhan 2 y ddogfen hon i wirio gwaith Gweinidogion Cymru ar y cynllun. Mae'r corff hwn yn gallu sicrhau bod pethau ar y trywydd iawn ac awgrymu gwelliannau os oes angen.

## Cydweithio Rhyngwladol:



- Mae Cymru'n rhan o ymdrech fyd-eang i ddiogelu natur, felly byddwn yn cael ein monitro gan sefydliadau a chytundebau rhyngwladol hefyd, megis y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol a'r Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod pawb yn gweithio gyda'i gilydd tuag at yr un amcanion.



- Yn gyffredinol, bydd y system fonitro yn gynhwysfawr, yn dryloyw, yn atebol, yn effeithiol ac yn addasadwy. Mae hyn yn golygu y bydd pawb yn gallu gweld sut mae pethau'n mynd a sicrhau bod y llywodraeth yn atebol am ei haddewidion.

# Amserlen y cynllun hwn




Bydd y cynllun sydd wedi cael sylw yn y ddogfen hon yn dod yn ddeddf gwlad cyn diwedd tymor y Senedd bresennol yn 2026. Bydd y targedau bioamrywiaeth yn cael eu cynnwys mor fuan ag sy'n bosib wedi hynny, pan fyddwn ni'n siŵr eu bod ar eu gorau ar gyfer bioamrywiaeth, cynefinoedd ac ecosystemau.

# Rhestr geiriau a thermau

| | |
|---|---|
| **Amgylchedd** | Dyma lle mae pawb yn byw. Y tir, y môr, yr awyr, a phopeth sy'n byw yno. |
| **Awdurdod cyhoeddus** | Sefydliad sy'n cael ei ariannu yn rhannol neu'n gyfan gwbl gan lywodraeth, ac yn gwneud pethau ar ei rhan. |
| **Bioamrywiaeth** | Yr holl bethau gwahanol sy'n byw ar y Ddaear. |
| **Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Amrywiaeth Fiolegol** | Cytundeb rhyngwladol rhwng llawer o wledydd ar gyfer cadwraeth, defnydd cynaliadwy a rhannu bioamrywiaeth yn deg. |
| **Cyfoeth Naturiol Cymru** | Y sefydliad sy'n gofalu am ein hamgylchedd ar gyfer pobl a natur yng Nghymru. |

**Diflanedig**

Os nad oes un enghraifft o rywogaeth ar ôl yn fyw, mae'r rhywogaeth honno yn ddiflanedig. Mae hynny'n gyflwr parhaol: os yw rhywogaeth yn diflannu, mae wedi mynd am byth.

**Dirywiad amgylcheddol**

Niwed i'r amgylchedd sy'n cael ei achosi gan bethau fel adeiladu mwy o dai a ffyrdd, llygredd, dulliau ffermio, newid hinsawdd a rhywogaethau estron goresgynnol.

**Economi**

Faint o arian sydd gan wlad, a nifer y nwyddau a'r gwasanaethau mae'r wlad yn eu cynhyrchu a'u defnyddio.

**Ecosystem**

Popeth mewn ardal, ei bioamrywiaeth a phethau sydd ddim yn fyw. Mae hynny'n cynnwys yr holl blanhigion, anifeiliaid a phethau byw eraill sy'n perthyn i gymunedau bywyd mewn ardal.

**Fframwaith Bioamrywiaeth Fyd-eang**

Cytundeb rhyngwladol i ddiogelu byd natur.

**Gwasanaethau ecosystem**

Gwasanaethau hanfodol sydd eu hangen ar bobl fel aer glân, dŵr, pridd iach i gynhyrchu bwyd, rheoli'r hinsawdd, meddyginiaeth, tanwydd, ffibrau a choed, a chefnogi iechyd a lles. Er enghraifft, mae coed yn creu ocsigen a phren sy'n ein helpu ni i anadlu ac adeiladu tai. Maen nhw'n gwella hapusrwydd a llesiant. Mae'r rhain i gyd yn wasanaethau ecosystem.

**Llywodraethiant amgylcheddol**

Corff llywodraethiant amgylcheddol yw corff gwarchod sy'n gwneud yn siŵr fod pawb yn cadw at y rheolau ac yn diogelu'r amgylchedd.

**Rhywogaethau estron goresgynnol**

Yw anifeiliaid neu blanhigion sydd wedi eu cyflwyno i ardal lle nad ydyn nhw'n byw'n naturiol, a lle mae ganddyn nhw'r potensial i niweidio'r amgylchedd, yr economi neu iechyd pobl.

**Statudol**

Rhywbeth sy'n cael ei benderfynu neu ei reoli gan ddeddf gwlad.

**Undeb Ewropeaidd**

Grŵp o wledydd yn Ewrop lle mae eu llywodraethau yn cydweithio.